



Croeso

CROESO i **Lwybr Dyffryn Dyfrdwy**, llwybr rhanbarth sy'n dilyn yr Afon Ddyfrdwy rhwng trefi tlws Corwen a Llangollen.

Mae'r llwybr mewn pum rhan. Ceir arwyddion amlwg ar ei hyd wrth iddo groesi tirweddau sy'n amrywiol ac yn llawn hanes a bywyd gwyllt. Dewch i brofi'r llwybrau tawel, y pentrefi heddychlon a'r tafarndai cyfeillgar. Dewch i weld yr hen gestyll, eglwysi a phontydd, a mwynhau'r blodau gwylltion, yr adar a'r gloynnod byw.

Dewch i gael y profiad o 'gerdded yn y wlad' ar ei orau.

Mapiau: OS Explorer 255 or 256

Pellter: 24 kilomedr/15 milltir (yr holl daith)

Amser: 1½ diwrnod (yr holl daith)

Graddfa: Rhai rhannau'n amrywio o hawdd i ganolig ac anodd



Gwybodaeth er mwyn cysylltu

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych

☎ 01352 810614

Ebost: parcgwledig.loggerheads@sirddinbych.gov.uk

www.sirddinbych.gov.uk/cefn gwlad

I weld fersiwn o'r arweiniad hwn, ac i gael mwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan:

www.llwybraudyffryndyfrdwy.com

Mae dwy daflen ar gael sy'n disgrifio ychwaneg o deithiau cerdded o Gorwen i Llangollen, (o'r Ganolfan Groeso yn Llangollen ac o'r Siop Un Alwad yng Nghorwen).

Welcome

WELCOME to the **Dee Valley Way**, a regional path that follows the course of the River Dee between the picturesque towns of Corwen and Llangollen.

Made up of five sections, this clearly waymarked trail crosses a varied landscape rich in history and wildlife. Experience peaceful paths, quiet villages and friendly pubs. Explore ancient castles, churches and bridges. Enjoy a wealth of wildflowers, birds and butterflies.

Discover country walking at its best.

Maps: OS Explorer 255 or 256

Distance: 24 km/15 miles (full trail)

Duration: Allow 1½ days (full trail)

Difficulty: Sections vary from easy, to medium and difficult.



Contact Information

Denbighshire Countryside Service

☎ 01352 810614


Email: loggerheadscountryside@denbighshire.gov.uk

www.denbighshire.gov.uk/countryside

For a downloadable version of this guide and further information see our website:

www.deevalleywalks.com

Two leaflets explore further walks from Corwen or Llangollen. (Available from the Llangollen Tourist Information Centre and Corwen's 'One Stop Shop').



Cerddwch ar hyd Llwybr Dyffryn Dyfrdwy


Dechreuwch drwy ddewis eich man cychwyn – naill ai Corwen neu Llangollen. Er bod yr arweiniad yn cychwyn o Gorwen, mae modd cerdded ar hyd **Llwybr Dyffryn Dyfrdwy** o unrhyw gyfeiriad. Os hoffech gerdded o Llangollen i Gorwen yna dechreuwch yn rhan olaf yr arweiniad a gweithio'n ôl. Os hoffech gael tro byrrach yna dewiswch ran neu ddwy sy'n addas ichi, neu (i'ch cyrchu i gychwyn neu i ben eich tro) gallwch deithio ar y trên stêm neu ar y cwch ar y gamlas gyda cheffyl yn tynnu.

Mae arwyddion amlwg ar bob cam o'r daith, sy'n 24 kilomedr/15 milltir, a rhennir y daith yn bum rhan gyda mannau hwylus i gychwyn a gorffen pob darn. Syniad da fyddai mynd â Map OS Explorer (clawr lliw oren): naill ai rhif 255 *Llangollen a Mynyddoedd y Berwyn*, neu 256 *Llangollen a Wrexham* gyda chi. Mae'r mapiau'n dangos y llwybr yn fanylach ac yn dangos y lleoedd diddorol eraill sy ar hyd y ffordd.

Walking the Dee Valley Way

First choose your starting point: either Corwen or Llangollen. Although the guide sets out from Corwen, the **Dee Valley Way** can be walked in either direction. To follow the route from Llangollen to Corwen, simply work through the sections in reverse order. For a shorter walk, select a section or two to suit your needs – or travel to or from your walk by steam train or horse-drawn canal boat.

The whole 24 kilometre/15 mile route is clearly waymarked, and split into five sections that start and finish at easily accessible points. It's a good idea, to take along a large scale OS Explorer map (orange cover): either 255 *Llangollen and the Berwyns*, or 256 *Llangollen and Wrexham*, which show the route in greater detail – as well as revealing other places to visit along the way.



Corwen-Carrog

O gychwyn yng Nghorwen mae'r llwybr yn dringo i fan sy'n union o dan fryngaer Caer Drewyn cyn mynd yn ei flaen y tu uchaf i'r Afon Ddyfrdwy ac i bentref Carrog.

Pellter: 6.5 km/4 milltir
Graddfa: Canolig (peth dringo)

Hen dref farchnad, a leolwyd lle mae cymer afonydd Dyfrdwy ac Alwen yn Nyffryn Edeyrnion, yw **Corwen**. Yn oes Fictoria, pan roedd Corwen yn ei hanterth, roedd y ffordd a'r rheilffordd yn cyfarfod ar gyfer mynd ymhellach i ogledd Cymru. Heddiw, mae canol y dref yn bwysig o ran y bensaernïaeth a'r diddordeb hanesyddol ac mae'n ardal cadwraeth ddynodedig.

Y tu uchaf i Gorwen mae un o fryngaerau Oes yr Haearn a gafodd ei chadw orau yng Nghymru. Ystyr yr enw **Caer Drewyn** yw 'caer tref gwyn' a bu pobl yn byw yma rywdro rhwng 600cc a goresgyniad y Rhufeiniaid. Ar un adeg, efallai bod palisâd pren ar ben y gaer i amddiffyn yr anheddiad o dai to gwellt, mawr, crwn. Chwiliwch am olion eu sylfeini cerrig wrth ochr y gaer.

Edrychwch am ...

De Sir Ddinbych yw cartref yr **wiwer goch**, sy'n prnhau yn gynyddol. Mae poblogaethau o'n gwiwer goch fach frodorol yn parhau i oroesi mewn ychydig o blanhigfeydd conifferau, fel Pen-y-Pigyn cyfagos; ond ers i'r wiwer lwyd gael ei chyflwyno i Brydain o'r America yn y 1870au, prnhau bu hanes y wiwer goch.



Bryngaer Caer Drewyn uwchben tref Corwen.
Caer Drewyn Iron Age hillfort overlooks modern Corwen.

Corwen-Carrog

Starting at Corwen, the path climbs to just below Caer Drewyn hillfort before continuing above the Dee to the tiny village of Carrog.

Distance: 6.5 km/4 miles
Difficulty: Medium (some ascents)

Corwen is an ancient market town situated at the junction of the rivers Dee and Alwen, in the Vale of Edeyrnion. In its Victorian heyday, the town was the hub for road and rail access to North Wales. Today, the distinctive town centre is of special architectural and historical interest, and a designated conservation area.

Overlooking Corwen is one of the best-preserved Iron Age hillforts in Wales.

Caer Drewyn means 'fort of the white town' and was occupied sometime between 600BC and the Roman occupation. The stone ramparts may once have been topped by a wooden palisade that protected a settlement of large, thatched round houses. Look for traces of their stone foundations beside the fort.



Tref hanesyddol dlos Corwen.
The picturesque market town of Corwen.

Look Out For ...

South Denbighshire is home to the increasingly rare **red squirrel**. A few conifer plantations, like that at nearby Pen-y-Pigyn, still hold populations of our tiny, native red squirrel. Sadly, they've been in decline ever since the larger American grey squirrel was introduced to Britain in the 1870s.

Carrog-Glyndyfrdwy

Mae'r llwybr yn dringo o'r bont garreg yng Ngharrog a thrwy'r caeau a'r coed cyn disgyn i bentref Glyndyfrdwy.

Pellter: 6.5 km/4 milltir

Graddfa: Anodd (hirach, rhai bryniau)

Pentref tlws yw **Carrog** a dyfodd o gwmpas y bont garreg a godwyd yn y 17eg ganrif. Mae bwâu'r bont yn ymestyn ar draws yr Afon Ddyfrdwy. Ystyr yr enw Carrog yw 'nant sy'n llifo'n gyflym'. Yn y 1600au cafodd yr hen eglwys ei golchi i'r afon gan lifogydd. Fe'i hailadeiladwyd ar dir uwch. Yn union ar draws yr afon mae gorsaf Rheilffordd Stêm Llangollen. Mae'r trenau'n rhedeg oddi yma o fis Ebrill tan fis Hydref.

Mae i bentref Carrog gysylltiadau agos gydag **Owain Glyndŵr**. Mae safle ei hen blas ar draws yr afon yn Llidiart-y-Parc. Ac yma, yn ymyl ffordd dyrpeg brysur yr A5, saif olion tomen castell a elwir, yn ôl traddodiad, yn Domen Owain Glyndŵr. Ychydig sy'n gwybod mai'r enw gwreiddiol ar bentref Carrog, cyn oes y rheilffyrdd, yw Llansantffraid Glyndyfrdwy. Tybir fod enw Glyndŵr yn tarddu o enw'r pentref.

Chwiliwch am...

Mae dyfroedd di-lygredd y rhan yma o'r Afon Ddyfrdwy yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae yma boblogaeth iach o eog, brithyll a llysywen. Yn eu tro, mae'r pysgod hwythau'n denu'r dyfrgwn swil, sy'n dod allan yn y nos gan amlaf. Un arall sy'n byw wrth yr afon yw llygoden y dŵr – yr enwog 'Ratty', o'r llyfr *The Wind in the Willows*.

Carrog-Glyndyfrdwy

From the stone bridge at Carrog, the path climbs through fields and woods before descending to the village of Glyndyfrdwy.

Distance: 6.5 km/4 miles

Difficulty: Difficult (longer with some hills)

Carrog is an attractive village clustered around a 17th-century stone bridge whose arches span the Dee. The name Carrog means 'fast flowing stream', and an early church here was swept away by floods in the 1600s, though later rebuilt on higher ground. Just across the river is Carrog station – on the restored Llangollen Steam Railway – from where trains run from April to October.

Carrog has close links with **Owain Glyndŵr** – the Welsh hero. The site of his fortified manor house sits across the river at Llidiart-y-Parc. Here, too, beside the busy A5, stand the remains of an earthen castle mound traditionally known as Owain Glyndŵr's Mount. Less well known is the fact that Carrog village was originally called Llansantffraid Glyndyfrdwy – and it's from this that Owain Glyndŵr took his name.

Look Out For ...

The unpolluted waters of this section of the river Dee are a Site of Special Scientific Interest (SSSI) and support healthy populations of salmon, brown trout and grayling. The fish, in turn, attract elusive, largely nocturnal **otters**. Another river resident is the endangered water vole – better known, perhaps, as 'Ratty' from the classic *The Wind in the Willows*.



*Pentref Carrog o lonyddwch yr Afon Ddyfrdwy.
Carrog village seen from the tranquil river Dee.*



*Tomen Glyndŵr.
Owain Glyndŵr's
Mount.*

Glyndyfrdwy-Rhewl

Dilynwch y ffyrdd bach troellog i fyny'r allt, ac yna dilyn y llwybr ar draws lethrau isaf Mynydd Llantysilio a chyrraedd hen dafarn y porthmyn yn Rhewl.

Pellter: 5 km/3 milltir

Graddfa: Anodd (hirach, rhai brynau)

Ffurfiwyd y graig galed sydd o dan **Mynydd Llantysilio** yn ystod y cyfnod Silwraidd, tua 45 o filiynau o flynyddoedd yn ôl. Erbyn hyn rheolir ardaloedd y grug porffor, y llus gwyrdd ac eithin y mynydd ar gyfer y bywyd gwyllt. Mae rhai adar prin y rhostiroedd ar y mynydd ac yn eu plith y gylfinir, cwtiad aur, mwyalchen y mynydd, cudyll bach, a'r rugiar ddu.

Tafarn o'r 14 ganrif yw'r **Sun Inn** yn Rhewl. Ar hyd y canrifoedd bu'r porthmyn yn gyrru gwartheg a defaid ar draws y mynydd i'r marchnadoedd ar wastadeddau Lloegr. Datblygodd llwybrau'r porthmyn i osgoi talu'r tollau ar y ffyrdd. Roedd bwyd a lloches ar gael yn y tafarndai ar y ffyrdd anghysbell hyn, a lle i aros y nos. Wrth ochr y dafarn roedd corlannau diogel i'r anifeiliaid.

Edrychwch am ...

Cydnabyddir rhannau helaeth o Fynydd Llantysilio yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig am eu bod yn werthfawr fel rhostiroedd. Un rhywogaeth allweddol sydd yma yw'r **rugiar ddu**, sy'n parhau'n brin ac sy'n hoffi'r cynefinoedd rhwng y rhostir a'r goedwig. Yn ystod y gwanwyn cynnar mae'r ceiliogod, sydd â phlu du, yn arddangos o flaen yr ieir, sydd â phlu brown, yn eu llecynnau paru traddodiadol.



Sun Inn, Rhewl.



Glyndyfrdwy-Rhewl

Follow winding lanes uphill, as the path crosses the lower slopes of the Llantysilio Mountains to emerge at an old drovers' inn at Rhewl.

Distance: 5 km/3 miles

Difficulty: Difficult (longer with some hills)

The hard, underlying rock of the **Llantysilio Mountains** was created during the Silurian period, some 45 million years ago. Today, the mosaic of purple heather, emerald green bilberries and gorse of the upper moorland slopes are managed for wildlife. Rare moorland birds found on the mountain include curlew, golden plover, ring ouzel, merlin, and the elusive black grouse.

The **Sun Inn** at Rhewl is a 14th-century drovers' inn. For centuries, drovers herded cattle and sheep across the hills to the lowland markets of England. Drovers' roads developed, avoiding towns and toll roads. Inns along these remote routes provided welcome shelter and food for the drovers overnight, with secure pens alongside for their animals.

*Yr eithin melyn a'r grug porffor ar lethrau'r brynau.
Yellow gorse and purple heather clothe the hills.*



Look Out For ...

Large parts of the Llantysilio Mountains are recognised as a Site of Special Scientific Interest (or SSSI) for their valuable moorland. A key species here is the increasingly rare **black grouse** whose preferred habitat is the margin between open moor and forestry. In early spring the black plumaged males display to the smaller, brown females at traditional sites called 'leks'.

Rhewl-Rhaeadr y Bedol

Y tu hwnt i'r Rhewl, mae'r llwybr yn troi o amgylch dolen fawr yn yr afon, gan fynd heibio eglwys Llantysilio ac i rhaeadr anghyffredin Telford – Rhaeadr y Bedol.

Pellter: 3 km/2 filltir

Graddfa: Canolig (rhai ellytydd)

Rhan o'r llinell drên wreiddiol o Riwbabon i'r Abermaw, a gafodd ei hadfer, yw **Rheilffordd Stêm Llangollen**. Yn union fel nifer o linellau eraill Cymru fe agorodd y rheilffordd yn y 1860au. Bu'n ffynnu tan tua 1900 a dirywio yn y 20au a'r 30au. Caeodd o dan doriadau Beeching yn 1968. Mae gwirfoddolwyr brwd wrthi'n adnewyddu'n ofalus ers 1975.

Mae **Eglwys Llantysilio** yn sefyll ar ddarn o dir uchel yn ymyl Rhaeadr y Bedol. Cysegrwyd yr eglwys i Sant Tysilio, mab i dywysog lleol. Adnewyddwyd llawer ar yr eglwys, er hynny mae modd gweld rhannau o'r eglwys wreiddiol, a adeiladwyd tua 1254, yn y mur gogleddol. O ran diddordeb; addolodd y bardd Robert Browning yma am ddeg wythnos yn hydref y flwyddyn 1886.

Edrychwch am

Ar ddechrau'r haf bydd aroglau cryf y craf – **y garlleg gwyllt** – yn llenwi'r coedlannau gwlyb a'r gwrychoedd sydd o boptu i'r llwybr. Erbyn mis Mai gwelir carpedi o'u blodau gwynion ar lawr y goedwig. Ceir yr enw 'craf' mewn rhai enwau lleoedd fel Crafnant a Chraflwyn.

Rhewl-Horseshoe Falls


Beyond Rhewl, the path curves around a large loop in the river, passing Llantysilio church, and leading to Telford's unusual weir, the Horseshoe Falls.

Distance: 3 km/2 miles

Difficulty: Medium (some hills)

The **Llangollen Steam Railway** is a rejuvenated section of the original Ruabon to Barmouth line. Like many Welsh branch lines, it opened in the 1860s, flourished until around 1900, declined in the 1920s and '30s, and was finally closed under the Beeching cuts in 1968. Enthusiastic volunteers have been painstakingly restoring it since 1975.

Llantysilio church sits on high ground close to the Horseshoe Falls. The church is dedicated to Saint Tysilio, the son of a local prince. Though much restored, parts of the original church built around 1254 can still be seen in the north wall. Interestingly, the poet Robert Browning worshipped here for ten weeks in the autumn of 1886.



*Trên Rheilffordd Stêm Llangollen yn dringo i fyny Dyffryn yr Afon Ddyfrdwy.
A Llangollen Steam Railway train puffs up the Dee Valley.*



*Eglwys Llantysilio o dan haen o eira.
Snow decorates tiny Llantysilio church.*

Look Out For ...

In early summer, the strong onion smell of **wild garlic** fills the damp woods and hedgerows along the path. By May, great swathes of white flowers carpet the woodland floor. An older name for wild garlic is ramsons - from the Norse and Old English for an 'unpleasant smelling ram'.

Rhaeadr y Bedol-Llangollen

Mae'r llwybr gwastad a hawdd yn dilyn llwybr tynnu'r Shropshire Union Canal wrth i hwnnw gyd-redeg â'r afon a Rheilffordd Stêm Llangollen, a adferwyd.

Pellter: 3 km/2 filltir
Graddfa: Hawdd (byr a gwastad)

Cored ar ffurf hanner cylch yw **Rhaeadr y Bedol**. Yr enwog Thomas Telford a'i lluniodd yn 1806 i gyflenwi dŵr i Gangen Llangollen o'r Shropshire Union Canal. Hyd gyfnod y rheilffyrdd roedd y gamlas yn un brysur iawn ac arni gychod yn cludo llechi i Birmingham a Llundain. Gwaetha'r modd, tynnodd y gamlas gymaint o ddŵr o'r afon nes i nifer o felinau'r Afon Ddyfrdwy fynd allan o fusnes.


Yn uwch i fyny'r afon o Langollen, mae Dyffryn yr Afon Ddyfrdwy'n culhau ac yn torri drwy'r bwlch rhwng Mynyddoedd Llantysilio a'r Berwyn. Yma ceir llwybrau trafnidiaeth hanesyddol yn closio at ei gilydd – afon, camlas, a thyrpeg Telford o Gaergybi i Lundain – yr A5. Mae'r pedwar i'w gweld yn y **Berwyn**. Ond er bod y ffordd yn brysur, erbyn hyn twristiaid tymhorol yn unig sy'n teithio ar yr afon, y gamlas a'r rheilffordd.

Edrychwch am ...

Mae'r dŵr sydd yng nghyflenwydd y gamlas i'r dim ar gyfer **pysgod a hwyaid**. Edrychwch yn ofalus a byddwch yn gallu gweld rhufell, merfog a llysywen ymhlith y chwyn. Hwyaid cyffredin yw'r mwyafrif o'r hwyaid, ond mae yma rai sydd wedi croesi gyda hwyaid fferm. Edrychwch am yr hwyaid bach hefyd, ym mis Mai a mis Mehefin.

Horseshoe Falls-Llangollen

*Rhan hardd o gamlas Llangollen
A pretty stretch of the Shropshire
Union Canal.*



The flat, easy path follows the Shropshire Union Canal towpath as it runs parallel with the river and the restored Llangollen Steam Railway line.


Distance: 3 km/2 miles
Difficulty: Easy (short and level)

The **Horseshoe Falls** is a picturesque semi-circular weir designed by the famous engineer Thomas Telford in 1806 to supply water to the Llangollen branch of the Shropshire Union Canal. Until the coming of the railways, the canal was busy with narrowboats carrying slates to Birmingham and London. Unfortunately, the canal took so much water from the river that many of the mills on the river Dee went out of business.


Upstream of Llangollen, the Dee valley narrows to cut between the Llantysilio Mountains and the Berwyns. Here, a historic succession of transport routes crowd together through the gap: the river, canal, railway and Telford's London-Holyhead A5 trunk road. Today, all four can be seen at **Berwyn**. But while the road remains busy, the river, canal and railway now carry only seasonal tourists.

Look Out For ...

The water in the canal feeder is just right for **fish and ducks**. Look carefully and you should see roach, bream and eels among the weeds. Most of the ducks are common mallards, though some are crossbreeds with white farmyard ducks. Watch out for ducklings, too, in May and June.



*Rhaeadr y Bedol unigryw Thomas Telford yn yr haf.
Thomas Telford's unique Horseshoe Falls in summer.*



Sut i ddod o hyd i Lwybr Dyffryn Dyfrdwy

Mae Llwybr Dyffryn Dyfrdwy yn rhedeg am 24km/15milltir rhwng Corwen a Llangollen. Mae'r ddwy dref ar briffordd yr A5 (Caergybi-Llundain), nid nepell o ffin Lloegr.

Mwy o wybodaeth

Canolfan Croeso Llangollen ☎ 01978 860828
Corwen 'Siop Un Alwad' ☎ 01490 412378
Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych
☎ 01352 810614
E-bost: parcgwledig.loggerheads@sirddinbych.gov.uk
www.sirddinbych.gov.uk/cefnngwlad

Mapiau

OS Explorer (lliw oren), 255 *Llangollen a Mynyddoedd y Berwyn*, neu 256 *Llangollen a Wrecsam*.

Bysiau

Grŵp cludo Teithwyr, Cyngor Sir Ddinbych
☎ 01824 706968.
www.denbighshire.gov.uk/highways

Taith ar y trêr stêm

Rheilffordd Stêm Llangollen. ☎ 01978 860979.
www.llangollen-railway.co.uk

Taith ar y Gamlas

Glanfa Llangollen. ☎ 01978 860702.
www.horsedrawnboats.co.uk

Llety

Gwybodaeth i dwristiaid a llety.
www.visitwales.com
www.borderlands.co.uk

Hawlfraint © Cyngor Sir Ddinbych 2004. Cedwir pob hawlfraint
Mapiau: Carl Rogers
Ffotograffau: Cyngor Sir Ddinbych, Carl Rogers, Steve Woodfall
www.woodfall.com
Gwnaed pob ymdrech i sicrhau fod yr wybodaeth sydd ar y daflen hon mor gywir ag y bo modd, ond ni all awduron na'r yr cyhoeddwy'r dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am ganlyniadau sy'n deillio o unrhyw wallau.

Cynhyrchwyd gan 'Interpretation'. ☎ 01244 676741.
E-bost tony@heritageinterpretation.co.uk.

How to find the Dee Valley Way

The Dee Valley Way runs for 24km/15 miles between Corwen and Llangollen. Both towns are on the main A5 (London-Holyhead) road, just inside the Welsh-English border, in North Wales.

Further Information

Llangollen Tourist Information Centre:
☎ 01978 860828
Corwen 'One Stop Shop' ☎ 01490 412378
Denbighshire Countryside Service
☎ 01352 810614
Email: loggerheads.countryside@denbighshire.gov.uk
www.denbighshire.gov.uk/countryside

Maps

OS Explorer (Orange), 255 *Llangollen and the Berwyns*, or 256 *Llangollen and Wrexham*.

Buses

The Passenger Transport Group, Denbighshire County Council. ☎ 01824 706968.
www.denbighshire.gov.uk/highways

Steam Trains

Llangollen Steam Railway. ☎ 01978 860979.
www.llangollen-railway.co.uk

Canal Trips

Llangollen Wharf. ☎ 01978 860702.
www.horsedrawnboats.co.uk

Accommodation

Tourist and accommodation information.
www.visitwales.com
www.borderlands.co.uk

Copyright © Denbighshire County Council 2004. All rights reserved.

Maps: Carl Rogers
Photographs: Denbighshire County Council, Carl Rogers, Steve Woodfall www.woodfall.com

Whilst every effort has been made to make this booklet as accurate as possible, neither authors nor publishers can accept any responsibility for the consequences of any errors.

Produced by 'Interpretation'. ☎ 01244 676741.
E-mail: tony@heritageinterpretation.co.uk.

Adfywio



Cerddwch

Lwybr Dyffryn Dyfrdwy



Walk

the Dee Valley Way



dewis diwylliant a hamdden yn Sir Ddinbych
choosing culture and leisure in Denbighshire

